POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD

**PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

# ADRODDIAD AR ADRODDIAD BLYNYDDOL COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

## Cefndir

Gwnaed yr adroddiad hwn yn unol â dyletswydd statudol y Panel a gynhwysir yn Adran 28(4) (d) o Ddeddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

## Adolygiad o Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Ystyriodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru Adroddiad Blynyddol 2023/2024 y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ei gyfarfod ar 16 Medi 2024.

Hwn yw trydydd adroddiad blynyddol Mr Dunbobbin fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd ers iddo gael ei ethol ym mis Mai 2021, ac mae’n darparu gwybodaeth am y cynnydd cyffredinol yn erbyn blaenoriaethau strategol Cynllun yr Heddlu a Throsedd.

Fe soniwyd yn yr adroddiad bod achosion o drosedd a recordiwyd yng ngogledd Cymru wedi gostwng 13% yn 2023/2024 o’i gymharu â’r 12 mis blaenorol ac roedd y gyfradd canlyniadau wedi cynyddu ychydig dros 2%. Er bod y rhain yn ganlyniadau cadarnhaol, roedd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHH) yn cydnabod bod gwaith i’w wneud eto a byddai’n parhau i weithio gyda’r Prif Gwnstabl er mwyn lleihau trosedd a gwella perfformiad ymhellach.

Rhoddodd yr adroddiad drosolwg o’r canlynol:

- Y galw ar Heddlu Gogledd Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf a blaenoriaethau’r CHH.
- Blwyddyn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd mewn ffigurau, gan gynnwys faint o gyllid a ddarparwyd, faint o gwynion a dderbyniwyd, achosion ymddygiad a ystyriwyd a’r nifer o ymweliadau a gynhaliwyd gan Ymwelwyr Dalfeydd annibynnol.
- Cynnydd ar Strategaeth Trais Difrifol - fe nodwyd fod holl ofynion Dyletswydd Trais Difrifol wedi cael eu bodloni yn ystod 2023/2024.
- Troseddau a gofnodwyd yng ngogledd Cymru – ar y cyfan roedd trosedd i lawr 13.1% o’i gymharu â’r 12 mis blaenorol (i lawr o 63,624 i 55,312).

- Darparu camau gweithredu Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.
- Atebolrwydd a dyletswyddau statudol.
- Cynnydd amcanion y Cynllun Heddlu a Throsedd.
- Cyllido ac arian.

Fe adolygodd y Panel Heddlu a Throsedd yr adroddiad yn fanwl gan ofyn cwestiynau am rywfaint o'r ystadegau yn yr adroddiad, yn benodol mewn perthynas â'r cynnydd yn y niferoedd o alwadau 999 a 101 a'r nifer o ddigwyddiadau yr aethpwyd iddynt. Fe gydnabyddir nad oedd yna ddull o gymharu ar gyfer y nifer o ddigwyddiadau a fynychwyd, serch hynny, cafodd y Panel wybod bod yna nifer o ffyrdd o ymchwilio i droseddau i ddarparu canlyniad gwell. Yn ychwanegol, mae'n bosib y gellir priodoli swm y galwadau, yn rhannol, i bobl yn ffonio fwy nag unwaith, galwadau asiantaeth trydydd parti (yn cynnwys y gwasanaeth ambiwlans) a'r cyhoedd eisiau gwybod am ddatblygiadau. Gellir darparu rhagor o ddata mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Yn ychwanegol, roedd y Panel yn cydnabod manteision cyfiawnder adferol, serch hynny, roedd yna bryderon am yr oedi gan re:hub wrth ystyried ceisiadau. Fe nodwyd bod y Panel yn gweithio gyda thîm rheoli re:hub i ystyried ffordd o atal oedi o'r fath yn y dyfodol.

Roedd y Panel yn croesawu'r gostyngiad cyffredinol mewn trosedd dros y 12 mis diwethaf ac yn teimlo bod yr Adroddiad Blynyddol yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed ar y blaenoriaethau yng Nghynllun yr Heddlu a Throsedd.

**PENDERFYNWYD-**

**Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru'n derbyn Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2023/2024.**

*This document is also available in English.*